

Aled Hughes 1802964

ECAD4008C

Arwain y dysgu: Beth sut a pham ydw I'n addysgu?

Rydym yn amser cyffroes iawn yn addysg yng Nghymru. Gyda chyhoeddiad o'r cwricwlwm newydd ar gyfer 2022 (Cwricwlwm i Gymru). Er bod ysgolion dal yn gweithredu ar y cwricwlwm presennol (2015) mae llawer o ysgolion yn dechrau gweithredu ar agweddau o'r cwricwlwm newydd ac mae Estyn wedi nodi sawl achos o arfer da lle mae ysgolion wedi integreiddio darnau o'r cwricwlwm newydd i mewn i fywyd pob dydd ysgol.

Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru gan arbenigwyr maes ac athrawon gan ddefnyddio'r argymhellion a nodi'r yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus Yr Athro Donaldson. Mae'r cwricwlwm newydd yn defnyddio llawer o'r ddamcaniaeth sydd yn bresennol yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Mae Donaldson yn enwi damcaniaeth y Cyfnod Sylfaen fel un o gryfderau'r cwricwlwm presennol. *'Taken together, all of this evidence indicates that the existing curriculum arrangements in Wales have some very real strengths upon which we can build – not least the pedagogy underpinning the Foundation Phase and the commitment to Welsh language and culture.'* (Donaldson).

Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi llawer fwy o ryddid i athrawon wrth gynllunio, mae'n rhoi'r cyfle i athrawon cynllunio cynnwys sydd yn berthnasol i'w hardal ac i'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm newydd yn dod a diwedd i'r syniad o bynciau arwahan ac yn hytrach yn cyflwyno meysydd dysgu a phrofiad sydd yn annog dysgu mwy trawsgwricwlaidd. Credau Donaldson yn gryf iawn yn bwysigrwydd dysgu traws cwricwlaidd. *'Os yw cwricwlwm wedi'i diffinio'n bennaf ar sail pynciau sydd ar wahan i'w gilydd mae'n hawdd ei droi'n amserlen sydd weithiau'n gwrthio dysgu trawscwricwlaidd pwysig i'r cyrion'* (Donaldson, 2015). Yn ei adroddiad mae Donaldson yn enwi ei 4 diben (Atodiad 2), mae'r 4 diben yma wrth wraidd y cwricwlwm newydd ac mae llawer o ysgolion arloesol yn cynllunio nid yn unig y dysgu o amgylch y 4 diben ond hefyd ethos yr ysgol. Mae'r 4 diben yn amlinellu'r hyn mae Donaldson yn anelu fod pob disgybl yng Nghymru yn llwyddo i fod. Mae Donaldson yn enwi'r pedwar diben fel:

1. Dysgwyr uchelgeisiol galluog.
2. Unigolion iach a hyderus.
3. Cyfranwyr mentrus creadigol.
4. Dinasyddion egwyddorol gwybodus.

Credau Donaldson trwy gadw'r 4 agwedd yma wrth wraidd y cwricwlwm byddwn yn magu cenhedlaeth wybodus sydd yn barod i gyfrannu i'r gymdeithas a phobol ifanc sydd yn gadael ysgol gyda'r sgiliau angenrheidiol er mwyn fod yn rhan o weithlu'r dyfodol. Yn ogystal â'r 4 diben Yn ei adroddiad mae Donaldson hefyd yn enwi deuddeg egwyddor bedagogaid fydd yn arwain at addysgu da yn y cwricwlwm newydd.

'Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol

Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad' (Donaldson,2015).

Dywed Donaldson fod yr egwyddorion pedagogaid yma yn cysylltun yn agos gyda'r 4 diben a'r argymhellion ar gyfer cwricwlwm newydd. Mae'n disgrifio'r egwyddorion fel agweddau sy'n arwain at ddysgu effeithiol o fewn y cwricwlwm 2022 (Cwricwlwm i Gymru). Mae'n sôn am yr angenrheidrwydd fod gan athrawon gwybodaeth pwnc da, dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar allu disgyblion i ddysgu megis ffactorau cymdeithasol a seicolegol. a hefyd y gallu i ennyn diddordeb ddisgyblion yn ogystal ag elfennau arall.

Beth yw pedagogaid? Pedagogaid yw'r ymarfer ar ddamcaniaeth tu ôl i addysgu ac yn edrych ar y dysgu yn eu cyd-destun academaidd. *'Pedagogy can be defined as everything teachers plan and do to make a difference to children's learning such as instructing, questioning and explaining as well as implicit behaviours such as body language.'* (Grigg, 2015). Dywed Grigg fod pedagogaid tu ol i bob dull dysgu a phob agwedd o addysgu be bai yn ymwneud a sut mae'r athro yn modeli ymddygiad neu'r rheswm dros y dasg maent yn rhoi i'r disgyblion i gwblhau. Mae pedagogaid y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru wedi seilio ar y cred fod plant yn dysgu orau trwy chwarae. *'Drwy chwarae bydd ddisgyblion yn ymarfer a chadarnhau eu dysgu'* (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae chwarae yn holl bwysig i ddatblygiad plentyn oherwydd drwy gael profiadau a chysylltu gyda chyd-destun y byd go iawn y mae plant yn dysgu orau. Credau Tina Bruce fod plant yn ymarfer yr hyn maent yn dysgu trwy chwarae. Credau Bruce hefyd ni ddylai

oedolion amharu ar y chwarae o gwbl. Yn wrthwyneb i hyn mae llawer o'r chwarae sydd yn digwydd yn y cyfnod sylfaen wedi cynllunio yn drylwyr iawn gyda'r athro athrawes yn arwain y dysgu. Mae'n holl bwysig fod gan y disgyblion y cyfle i cael profiadau byd go iawn megis chwarae rôl dywed Vygotsky yn ei ddamcaniaeth.

'Social Constructivism' 'Humans develop knowledge, skills and beliefs as a social interactions' (Grigg, 2015). Mae' cysyniad yma yn cysylltu gyda egwyddor pedagogaidd donaldson 'Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol' (Donaldson, 2015).

Mae defnyddio cymysgedd o ddulliau yn holl bwysig wrth addysgu yn y cyfnod sylfaen oherwydd mae pob disgybl yn dysgu mewn ffordd wahanol. Mae Fleming yn awgrymu fod yna 4 prif fath o ddysgwyr yn ei fodel V.A.R.K. (Atodiad 1). Credau Fleming fod pobl naill ai yn dysgu:

5. Yn weledol sef trwy ddefnyddio lluniau, mapiau neu raffiau er mwyn dysgu gwybodaeth newydd.
6. Trwy Glywed a siarad (e.e.. trafodaethau grŵp).
7. Trwy ddarllen ac ysgrifennu (tueddol o fod yn hoff o ddarllen).
8. Yn 'Kinesthetic' sef dysgu trwy weithgareddau ymarferol a thasgau 'Hands On'.

Oherwydd nid yw pob disgybl yn debyg mae'n hanfodol fod athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau dysgu er mwyn sicrhau eich bod yn creu cyfleoedd i bob math o ddysgwyr i ymarfer/ehangu ar eu dysgu. *'Mae pob plentyn yn unigryw ac mae ganddynt eu nodweddion, eu diddordebau a'u hangenion gwahannol' (Ryder, 2010).* Wrth sicrhau ein bod yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau rydym yn rhoi'r cyfle orau i ddisgyblion darganfod dros eu hunain sut maent yn dysgu orau, cyntaf Donaldson a hyn yn eu hegwyddorion pedagogaidd *'Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.'* (Donaldson, 2015).

Yn fy ysgol lleoliad gwelaf bwyslais mawr ar sicrhau fod gan y disgyblion cyfnod sylfaen amrywiaeth o weithgareddau tu fewn i un wers. Ar ddechrau pob gwers roedd angen cyflwyniad, yn aml iawn oedd y cyflwyniad yn digwydd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol (BGRh) roedd hwn yn rhoi cyfle i'r athro/athrawes cynnal trafodaeth grŵp gyda disgyblion ac adolygu'r hyn maent eisoes wedi dysgu. Roedd yna 2 tasg ffocws ar gyfer pob gwers, roedd y rhain yn gyfle da i'r athro athrawes modeli sgil newydd neu ehangu ar y dysgu

blaenorol. mae tasgau ffocws hefyd yn gyfle da er mwyn i'r athrawes asesu'r dysgu/ gallu'r disgyblion. Roedd yr ysgol lleoliad hefyd yn sicrhau fod gan blant y plant amrywiaeth eang o heriau/tasgau annibynnol. Mae heriau/tasgau annibynnol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymarfer neu adeiladu ar yr hyn roeddent eisoes wedi dysgu. Roedd yna bwyslais ar sicrhau fod yna cyfleoedd i ddisgyblion defnyddio sgiliau digidol a'r cyfle i gael profiadau tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Ar fy mhrofiad dysgu ceisiais ddefnyddio'r gorau o bob cyfle i gyfoethogi dysgu'r disgyblion a theilwra darn o'n wersi ar gyfer pob math o ddysgwr, megis gweithgareddau digidol (dysgwyr gweledol) neu ddefnyddio arian go iawn wrth addysgu mathemateg (Kinesthetic - dysgu trwy brofiadau byd go iawn). Roedd hefyd pwyslais mawr ar ddefnyddio'r ardal tu allan. Credau White fod chwarae tu allan yn rhan holl bwysig o ddatblygiad plentyn.

Yn y Fframwaith Cyfnod Sylfaen mae hefyd pwyslais mawr ar effeithiolrwydd o ddysgu trwy thema. Mae dysgu trwy thema yn medru creu cysylltiadau rhwng pynciau a rhoi cyd-destun ehangach i'r dysgu. Mae'r cwricwlwm newydd yn annog athrawon i ddefnyddio thema fel ffordd o ennyn diddordeb y disgyblion, trwy waredu a phynciau unigol a chyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad. Mynna'r arbenigwyr fod dysgu trwy ddefnyddio thema yn gallu fod o fudd enfawr i ddisgyblion.

'a theme acts to integrate much of the curriculum, and secondly, that it creates a context for learning..In contextual learning an 'everyday' familiarity with new experiences is being developed, and there is ample evidence from research to suggest that children perform better when the task makes 'human sense.' (Davies, 1988) .

Tra bod dadl Donaldson a Davies efallai'n gywir rhaid nodi fod rhai yn anghytuno ac yn credu fod y defnydd o ddysgu pob agwedd o'r cwricwlwm odan un thema yn gallu gwneud niwed i allu'r disgyblion i ddatblygu rhai agweddau o'r cwricwlwm.

'There is a danger that themes will become rather too broadly based and the learning opportunities shallow, so with activities planned in this way, close attention needs to be paid to ensuring that children understand the key concepts involved and can apply their understanding to new situations.' (Moyles, 2002).

Cred Moyles yw bod themâu yn gallu amharu ar y dysgu oherwydd os ydych yn defnyddio thema i gyflwyno sgil megis mesur er enghraifft efallai nid ydy'r disgyblion yn mynd i ddeall bod y sgil yma yn gallu cael eu defnyddio tu hwnt i'r cyd-destun thema.

Roedd gan yr ysgol lleoliad cynllunio ar gyfer thema hir tymor a thymor canolog. Y thema hir dymor oedd storiâu/chwedlau traddodiadol a' thema tymor canolog oedd Jac a'r Goeden Ffa. Roedd defnyddio thema tymor canolog oedd yn rhedeg a thu pythefnos fel Jac a'r Goeden Ffa yn ffordd effeithiol o ennyn diddordeb y disgyblion a sicrhau nad oeddent yn diflasu a thema os oedd yn parhau am amser hir. yn ogystal â hyn mae defnyddio thema fach megis chwedl/stori yn cyfeirio yn ôl i bryderon Moyles, Mae defnyddio themâu bach yn galluoga ddisgyblion i ddefnyddio sgiliau dros amrywiaeth eang o gyd destunau ac nid eu cysylltu ag un thema yn unig.

Wrth ddefnyddio thema i reoli'r dysgu a chynllunio'r mwyafrif helaith o dasgau a gweithgareddau o gwmpes y thema yma mae'n creu cyfleoedd gwerthfawr i gynllunio yn drawsgwricwlaidd. Awgrymau Donaldson fod dysgu yn drawsgwricwlaidd yn elfen hanfodol o greu arferion da yn y Cwricwlwm i Gymru ac yn amlinellu hyn yn yr egwyddorion pedagogaid. *'Mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad'* (Donaldson, 2015). Mae dysgu yn drawsgwricwlaidd yn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau/ffiniau yn datblygu rhwng y pynciau ac yn galluogi i ddisgyblion defnyddio sgiliau dros amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyfleoedd ar gyfer dysgu trawsgwricwlaidd gan ddefnyddio'r gwahanol ardaloedd yn yr ystafell dosbarth a thu allan i'r ystafell i gyflwyno heriau a gweithgareddau sydd yn cwmpasu fwy na un o'r meysydd dysgu ac yn adeiladu ar y roeddent eisoes wedi dysgu. Mae Estyn yn canmol yr ysgol ar sut mae'n defnyddio'r ardaloedd hyn ar sut mae'r ysgol wedi magu hyder ac annibyniaeth y disgyblion. *'Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd bositif tuag at ddysgu ac yn mwynhau ymgymryd â thasgau yn eu gwersi. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus.'* (Estyn, 2018).

Gwelir hefyd pwysigrwydd dysgu gan ddefnyddio thema yn achos Reggio Emilia. Mae ysgolion Reggio Emilia yn cael canmoliaeth fyd eang am yr addysg maent yn darparu i blant ifanc (oedran cyfnod sylfaen). Mae damcaniaeth Reggio Emilia a Malaguzzi (un o arloeswyr y ddamcaniaeth) yn credu fod addysg yn gyfrifoldeb ar y gymuned gyfan ac yn defnyddio themâu fel parth ar gyfer creu cyfleoedd i i ddatblygu perthynas gyda'r amgylchedd.

Mae Llais y disgybl hefyd yn rhan fawr o ethos yr ysgol caiff yr ysgol canmoliaeth yn eu harolwg am eu defnydd o lais y disgybl. *'Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y*

disgyblion a'r staff yn nodwedd gref yn yr ysgol ac yn sylfaen gadarn i'r ethos gofalgar a theuluol. Mae dylanwad llais y disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig iawn ynghylch ymgymryd â swyddi cyfrifoldeb.' (ESTYN, 2018). Yn y Cyfnod Sylfaen y disgyblion sydd yn penderfynu ar gynnwys yr heriau annibynnol a pha her maent yn gwneud. Mae'r athrawon yn rhoi arweiniad i'r disgyblion ar ba sgiliau sydd angen ymarfer ac yna mae'r disgyblion yn cynnal trafodaeth ar beth hoffent gynnwys yn pob her a sut i'w cysylltu gyda'r thema. Mae sicrhau fod gan ddisgyblion perchnogaeth dros y gwaith ac yna mae gennynt mwy o ddiddordeb yn y dasg. Mae hy yn cysylltu gydag egwyddor bedagogaid Donaldson sy'n sôn am ennyn diddordeb y disgyblion. *'Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.'* (Donaldson, 2015). Cytunaf Steiner gyda'r safbwynt o bwysigrwydd llais disgybl yn addysg. Credau Steiner fod ewyllys y disgybl yn ganolog i'r addysgu. Yn ddamcaniaeth Steiner y plant sy'n dewis pa weithgareddau maent yn ymwneud a phryd.

Er efallai nid yw'r Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn cytuno gyda safbwynt eithafol steiner ar bwysigrwydd llais y disgybl mae'n cydnabod ei fod yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm yn symud ymlaen. Mae Estyn yn nodi defnydd Ysgol Bryn Tabor o lais y disgybl fel achos o arfer da.

'Caiff disgyblion Ysgol Bryn Tabor eu hannog i rannu'u barn am fywyd yr ysgol. Gofynnir iddynt ddod â thri pheth i'r ysgol i gynrychioli'r hyn yr hoffent ddysgu mwy amdano. Mae athrawon yn defnyddio gwaith cartref a phleidleisiau disgyblion i fesur eu diddordeb mewn themâu penodol. Mae staff yn gweithio gydag ysgolion eraill i ddatblygu gweithgareddau newydd i'w profi yn yr ystafell ddosbarth. Mae disgyblion yn llawn symbyliad ac mae ganddynt lawer o ddiddordeb yn eu gwaith, ac maent yn falch bod ganddynt lais cryf am yr hyn a ddysgant.' (ESTYN, 2019)

Mae'r ysgol yn teilwra'r dysgu gan ddefnyddio adborth y disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn dysgu am yr hyn sydd o ddiddordeb a'r hyn sydd yn bwysig iddyn nhw. Mae hyn yn ennyn diddordeb y disgyblion a chynyddu effeithiolrwydd yr addysgu. Dywed Estyn fod y disgyblion yn ymfalchïo bod ganddynt lais cryf yn yr hyn maent yn ei ddysgu. Yn ogystal â hyn mae brwdfrydedd ac ymroddiad y disgyblion gyda'u gwaith wedi gwella. Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r disgyblion yn gweithio'n gydwybodol ar dasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dyfalbarhau yn ardderchog i gwblhau eu tasgau. Awgrymir Estyn hefyd fod y dulliau yma wedi cael effaith positif iawn ar ddatblygiad proffesiynol y staff. *'Mae datblygiad y dulliau*

yma o weithio wedi cael effaith buddiol ar ddatblygiad proffesiynol y staff. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i welliannau parhaus a chynaliadwy trwy gydweithio a chynllunio ar y cyd. Mae hyn wedi bod yn gymorth i leihau baich gwaith.' (ESTYN, 2019). Yn y byd addysg mae'n hanfodol ein bod yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad athrawon ac yn eu hannog i wella, ymchwilio ac arbrofi yn gyson yn enwedig yn y cyfnod o newid enfawr yma.


I grynhoi, mae yna lawer o ganmoliaeth am ddamcaniaeth a pedagogaid y Cyfnod Sylfaen ac mae Donaldson yn amlinellu hyn yn eu hadroddiad. *'Taken together, all of this evidence indicates that the existing curriculum arrangements in Wales have some very real strengths upon which we can build – not least the pedagogy underpinning the Foundation Phase and the commitment to Welsh language and culture.'* (Donaldson, 2015). Ar sail hyn ysgrifennwyd ei egwyddorion pedagogaid, credau fod pob egwyddor yn cyd-weithio ar gyfer sicrhau dysgu da ac effeithiol yn y cwricwlwm newydd. Defnyddir llawer o agweddau ddamcaniaeth a pedagogaid y cyfnod sylfaen yn ogystal ag achosion o arfer da gan ysgolion arloesol a nodi'r gan Estyn er mwyn creu'r Cwricwlwm i Gymru.

Gellir nodi sawl cryfder yn ddarpariaeth addysg sydd yn cysylltu gydag egwyddorion pedagogaid Donaldson gan gynnwys y defnydd o Lais y disgybl, a'r defnydd o thema tu fewn y cyfnod sylfaen. Yn ogystal â hyn credaf taw un o'r cryfderau fwyaf yw'r defnydd o gyfleoedd i addysgu yn drawsgwricwlaidd. Maent yn gwneud ymdrech fawr i sicrhau fod gan y disgyblion amrywiaeth eang o weithgareddau ymarferol ac yn gwneud y gorau o'r amgylchedd dysgu. *'Children learn most effectively when they are actively doing, making, singing and exploring. The 'wow' factor becomes evident when the activity requires the children to use all of their senses, to use their whole bodies, and to stay active.'* (Clere, 2004). Mae sicrhau fod disgyblion yn cael y cyfle i ymwneud a thasgau ymarferol a chael y profiad o ddefnyddio deunydd byd go iawn.


Yn ogystal â'i chryfderau mae yna o hyd meysydd ar gyfer gwelliant a datblygiad. Un o'r prif agweddau yma yw'r defnydd o TGCh yn y Cyfnod Sylfaen. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'n hawdd anghofio pwysigrwydd TGCh wrth geisio datblygu sgiliau craidd megis ffurfio llythrennau a sgiliau rhifedd. Er hyn mae'n bwysig cofio mae sgiliau TGCh trawsnewidiol yn hanfodol bwysig i ddisgyblion yn enwedig yn fyd lle mae technoleg yn datblygu mor gyflym. *'yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o*

hyd i wybodaeth a'i dadansoddi' (Donaldson, 2015). Credau Doanldson fod sgiliau TGCh yn hanfodol bwysig er mwyn i ddisgyblion fod yn llwyddiannus yn weithlu'r dyfodol.

Atodiad 1 (model V.A.R.K gan Fleming)



Atodiad 2 (4 diben Yr Athro Donaldson)



Cyfeirnodï

- Grigg, Russell. *Becoming an Outstanding Primary School Teacher*. London : Routledge, 2015.
- Siencyn, and Siencyn, Sian Wyn. *Y Plentyn Bach : Cyflwyniad I Astudiaethau Plentyndod Cynnar*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg Y Drindod, 2008. Print.
- Siencyn, Sian Wyn. *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 Oed : Athroniaeth, Ymchwil Ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2010. Print.
- Ryder N, 2013, *Yr ABC i anghenion Ychwanegol Canolfan Peniarth*, Prifysgol y Drindod Dewi Sant; Caerfyrddin
- Llywodraeth Cymru, 2015, *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*, Hawlfraint Y Goron, Caerdydd
- Donaldson, G (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru' Llywodraeth Cymru, Caerdydd
- Estyn (2018) 'Adroddiad ar Ysgol Y Frenni', Hawlfraint y Goron, Caerdydd.
- Teach.com. 2020. *Learning Styles*. [online] Available at: <<https://teach.com/what/teachers-know/learning-styles/>> [Accessed 27 March 2020].

- Estyn.llyw.cymru. 2020. *Defnyddio Barn Disgyblion Yn Yr Ystafell Ddosbarth* | Estyn. [online] Available at: <<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-barn-disgyblion-yn-yr-ystafell-ddosbarth>> [Accessed 27 March 2020].

